BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

Amcangyfrifon o fynychder dementia yng Ngogledd Cymru

Rhagfyr 2025

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

Cysylltwch â ni

Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru

Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, LL15 1YN

Ebost: hcargc@sirddinbych.gov.uk

Ffôn: 01824 712432

Gwefan: www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/ystadegau/

Cynnwys

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Nodiadau ar y data 4

Mae dementia yn gyflwr sy’n cael ei gysylltu â henaint 6

Mae nifer y bobl hŷn yn y boblogaeth yn cynyddu 8

Amcangyfrifir bod tua 12,150 o bobl yng Ngogledd Cymru yn byw gyda dementia .. 10

Mae merched yn fwy tebygol na dynion o gael eu heffeithio gan ddementia 10

Mae gan y rhan fwyaf o bobl sy'n byw gyda dementia ddementia difrifol – amcangyfrif o 6,950 o bobl yng Ngogledd Cymru 11

Nid yw pawb sydd â dementia yn cael diagnosis 13

Mae nifer y bobl â dementia yn debygol o gynyddu yn y dyfodol 14

Atodiad: ystadegau dementia ar gyfer ardaloedd iechyd lleol a chlystyrau gofal sylfaenol 16

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Cynhyrchwyd y darn hwn o waith gan Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru ym mis Rhagfyr 2025. Mae'n diweddaru'r bwletin a gyhoeddwyd gennym ym mis Ionawr 2025. Bydd yn ffurfio rhan o'r rhaglen o ddiweddariadau i'r Dadansoddiad o Anghenion y Boblogaeth a bydd copi ar gael ar wefan Bwrdd Partneriaeth. Ein nod yw adolygu'r bwletin hwn bob blwyddyn ac ychwanegu data ac ymchwil newydd pan fydd ar gael.

Ni ddylid darllen yr adroddiad hwn ar ei ben ei hun. Mae llawer o waith da yn digwydd ledled Gogledd Cymru i weithredu ein strategaeth dementia, cyflwyno cymunedau sy'n gyfeillgar i ddementia a darparu gwasanaethau yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig i bobl. Mae gwefan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn rhoi rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn. Heb y cyd-destun hwnnw, dim ond maint y problemau a wynebir a ddangosir gan y data a'r ymchwil a gyflwynir yma ac nid yw'n cynrychioli bywydau pobl y tu hwnt i'w diagnosis yn llawn, cryfderau ein cymunedau a'r ffyrdd creadigol y mae pobl yn eu canfod i fyw'n dda gyda dementia.

Mae Strategaeth Dementia Gogledd Cymru (Mai 2025) a'n dogfen ymchwil Canolbwyntiwch ar ddementia yng Ngogledd Cymru (Mehefin 2025) yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwnc hwn.

Nodiadau ar y data

Oherwydd ein bod yn edrych ar ardaloedd chwe awdurdod unedol ac eisiau gwneud cymariaethau mor deg â phosibl, rydym yn defnyddio data sydd ar gael ar sail safonol ar gyfer pob maes. Mae hyn yn golygu ein bod wedi defnyddio ffynonellau data a gyhoeddwyd yn swyddogol yn bennaf. Efallai na fydd y rhain yn rhoi darlun llawn o'r hyn sy'n digwydd mewn ardal, a gallant ddangos patrymau gwahanol i ddata gweinyddol a gedwir yn lleol. Efallai y bydd data gweinyddol ar gael yn uniongyrchol gan gynghorau lleol neu ddarparwyr gwasanaethau os ydych am edrych ar ddarlun llawnach ar gyfer eich ardal.

Mae llawer o'r data yr ydym yn dibynnu arno yn dod o gofrestrau a ddefnyddir i helpu i redeg gwasanaethau, i gadw golwg ar bobl neu sefydliadau sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn, neu i fesur perfformiad (a elwir weithiau'n ddata gweinyddol). Mae hwn yn werthfawr iawn ac weithiau'r unig ddata sydd gennym. Ond oherwydd nad yw wedi'i gynllunio ar gyfer dadansoddi anghenion nid yw bob amser yn

cynnwys yr holl wybodaeth sydd o ddiddordeb i ni, neu gall ddiffinio pethau'n wahanol. Byddwn yn dweud wrthych pryd y mae hyn yn wir.

Gall y ffordd y mae data'n cael ei gasglu, ei gofnodi a'i ddehongli fod yn wahanol hefyd ar gyfer pob sefydliad, neu hyd yn oed ar gyfer setiau data tebyg o fewn yr un sefydliad. Oherwydd hyn mae'n rhaid i ni hefyd fod yn ofalus ynghylch sut rydym yn ei ddadansoddi ac yn ei adrodd. Lle bydd hyn yn digwydd, byddwn yn sôn amdano yn y bwletin.

Lle bo'n bosibl, rydym wedi edrych ar y data diweddaraf a darparu cymhariaeth â'r hyn a oedd yn digwydd 10 mlynedd yn flaenorol, i helpu i fesur newidiadau dros amser. Nid yw'r cyfnodau amser a gaiff eu mesur gan wahanol ffynonellau data yn cyd-fynd. Lle bo'n bosibl, mae unrhyw nodweddion (er enghraifft, sylfaen boblogaeth wrth gyfrifo canran) wedi'u paru â'r ffynhonnell ddata.

Mae amcangyfrifon o niferoedd poblogaeth wedi'u hadolygu yn dilyn rhyddhau canlyniadau o Gyfrifiad 2021, felly mae'r hyn yr ydym yn ei ddeall am dueddiadau'r boblogaeth wedi newid ers i Asesiad o Anghenion y Boblogaeth 2022 gael ei gyhoeddi. Mae hyn yn golygu y bydd rhai rhifau, cyfraddau a chanrannau yn edrych yn wahanol iawn i'r hyn a welwyd o'r blaen, ac ni ystyrir bod rhai ffynonellau data yr ydym wedi'u defnyddio o'r blaen yn ddibynadwy bellach (yn benodol, amcanestyniadau a rhagolygon sy'n seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol).

Mae'r ffigurau ar gyfer dangosyddion dementia ar gael ym mhrif gorff yr adroddiad ar lefel Gogledd Cymru ac awdurdod unedol, ac yn yr atodiad ar lefel clwstwr gofal sylfaenol.

Mae dementia yn gyflwr sy'n cael ei gysylltu â henaint

Mae dementia, sydd wedi bod yn uchel ar y rhaglen iechyd dros y degawd diwethaf, yn gyflwr sy'n cael ei gysylltu â henaint, ac mae nifer yr achosion yn cynyddu gydag oed. Dim ond tua 1 o bob 100 o bobl 60-64 oed (0.9%) y disgwylir iddynt brofi dementia, ond erbyn 95+ oed rhagwelir y bydd y ffigur hwn yn cynyddu i tua 41 o bob 100 o bobl (41.1%).

Ffigur 1: cyfraddau mynychder ar gyfer dementia hwyr

Grŵp oedran	Benywod	Gwrywod	Cyfartaledd cyffredinol
60–64 oed	0.9%	0.9%	0.9%
65–69 oed	1.8%	1.5%	1.7%
70–74 oed	3.0%	3.1%	3.0%
75–79 oed	6.6%	5.3%	6.0%
80–84 oed	11.7%	10.3%	11.1%
85–89 oed	20.2%	15.1%	18.3%
90–94 oed	33.0%	22.6%	29.9%
95 oed a throsodd	44.2%	28.8%	41.1%

Ffynhonnell: Prince, amcangyfrifon consensws o nifer yr achosion o ddementia, 2014

Rhagwelir bod cyfraddau mynychder ar gyfer dementia cynnar yn tua 0.094% neu'n llai na 1 o bob 1,000 o bobl rhwng 30 a 64 oed.

Mae'r disgwyliad oes wedi gwella yn y DU yn y degawdau diwethaf, ochr yn ochr â'r gallu i ganfod a thrin cyflyrau eraill sy'n gysylltiedig ag oedran, ac mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n goroesi'n ddigon hir i brofi dementia. Yn ogystal, wrth i'r genhedlaeth a aned yn ystod y twf babanod ar ôl yr Ail Ryfel Byd symud i'r grwpiau oedran hŷn, bydd nifer y bobl sy'n debygol o brofi dementia yn cynyddu'n sylweddol – nid oherwydd cynnydd ym mynychder y clefyd, ond oherwydd y cynnydd cyffredinol yn nifer y bobl 80 oed a hŷn.

Mae'r cyfrifiadau yr ydym wedi'u defnyddio yn y bwletin hwn yn defnyddio cyfraddau ar wahân ar gyfer dynion a merched. Cyfrifwyd y cyfansymiau drwy adio'r ffigurau ar gyfer y dynion a'r merched, ac nid drwy ddefnyddio'r cyfraddau mynychder 'cyfartalog' ar gyfer y boblogaeth.

Rhagdybir bod y cyfraddau mynychder a ddefnyddiwyd yn y bwletin hwn yn parhau'n sefydlog ar draws poblogaethau – lle, ar wahân i'r rhaniad rhwng dynion a merched, rydym yn defnyddio'r un cyfraddau mynychder ar gyfer yr holl grwpiau poblogaeth. Mewn gwirionedd, mae amrywiadau rhwng gwahanol grwpiau cymdeithasol-economaidd a gwahanol grwpiau ethnig a diwylliannol, ond nid oes gennym y data a fyddai'n ein galluogi ni i ddefnyddio mynychder ar lefel mwy gronynnog nag amcangyfrifon y consensws yr ydym wedi'i ddefnyddio.

Mae hefyd yn bosibl y bydd y cyfraddau mynychder yn newid dros amser, lle'r ydym wedi defnyddio'r un cyfraddau ar gyfer ffigurau poblogaeth y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Mae hyn oherwydd nad oes unrhyw fodel ystadegol cadarn neu astudiaeth academaidd a fyddai'n ein galluogi ni i ddefnyddio amrywiadau gydag unrhyw hyder. Fodd bynnag, wrth gymharu data o'r 1980au a'r 2010au (Matthews et al., 2016 'A two-decade dementia incidence comparison from the Cognitive Function and Ageing Studies I and II') dangosodd fod y cyfraddau mynychder wedi disgyn yn ystod y cyfnod hwnnw, yn enwedig i ddynion. Roedd y gostyngiad o bosibl o ganlyniad i welliannau mewn iechyd ac ymddygiadau iach (fel gostyngiadau mewn ysmygu), a hefyd oherwydd lefelau addysg gwell. Nid ydym yn gwybod os yw'r gwelliannau hyn yn parhau i gael effaith ond byddwn yn diweddaru ein cyfrifiadau os bydd data newydd ar gael. Fodd bynnag, os bydd y tueddiadau a nodwyd yn yr astudiaeth yn 2016 yn parhau, efallai bod ein hamcangyfrifon o nifer y bobl sy'n profi dementia yn oramcangyfrif.

Mae nifer y bobl hŷn yn y boblogaeth yn cynyddu

Mae'r amcangyfrifon poblogaeth diweddaraf (2024) yn nodi bod cyfanswm nifer y bobl 65 oed a throsodd yng Ngogledd Cymru yn oddeutu 167,550. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys 83,750 o bobl 65-74 oed, 62,200 o bobl 75-84 oed a 21,600 o bobl 85 oed a throsodd.

Mae mwy o ferched nag o ddynion 65 oed a hŷn. Mae cyfran y merched yn y boblogaeth yn cynyddu yn y grwpiau oedran hŷn – mae merched yn cyfrif am 51% o'r boblogaeth 65-69 oed a 67% o'r boblogaeth 90 oed a throsodd.

Ffigur 2: nifer y bobl 65 oed a throsodd yng Ngogledd Cymru, 2024

Ardal	Pawb 65+ oed	Oedran 65-74	Oedran 75-85	85 oed a throsodd	Gwrywod	Benywod
Ynys Môn	18,950	9,400	7,100	2,450	8,900	10,050
Gwynedd	28,250	14,100	10,300	3,850	13,250	14,950
Conwy	32,550	16,050	12,100	4,450	14,950	17,600
Sir Ddinbych	24,650	12,200	9,300	3,150	11,450	13,200
Sir y Fflint	34,450	17,350	12,950	4,150	15,950	18,500
Wrecsam	28,750	14,650	10,500	3,600	13,300	15,450
Gogledd Cymru	167,550	83,750	62,200	21,600	77,850	89,700

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Ffynhonnell: amcangyfrifon poblogaeth ganol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Rhwng 2014 a 2024, cynyddodd y boblogaeth 65 oed a throsodd yng Ngogledd Cymru gan 16,600 – gan gynyddu o 21.9% o gyfanswm y boblogaeth i 24.0%.

Yn yr un cyfnod, cynyddodd y boblogaeth 85 oed a throsodd gan 1,900 (2.9% o'r boblogaeth yn 2014 o'i chymharu â 3.1% yn 2024).

Mae gan Ogledd Cymru gyfran uwch o'i phoblogaeth sy'n 65 oed neu'n hŷn nag ar draws Cymru (21.7%) neu'r DU ar y cyfan (19.0%). Mae'r cyfrannau o bobl hŷn yn y boblogaeth ar eu huchaf yng Nghonwy ac Ynys Môn.

Disgwylir y bydd cyfran a nifer y bobl hŷn yn y boblogaeth yn cynyddu ganol y 2040au, pan fydd y garfan fawr a aned yn ystod y twf babanod yn dechrau gadael y boblogaeth.

Ffigur 3: newid yn nifer y bobl 65 oed a throsodd yng Ngogledd Cymru, 2014 a 2024

Ardal	2024 nifer	2024 canran	2014 nifer	2014 canran	Newid 2014-24
Ynys Môn	18,950	27.4%	16,800	24.1%	2,150
Gwynedd	28,250	23.4%	26,900	22.5%	1,350
Conwy	32,550	28.3%	30,000	25.9%	2,600
Sir Ddinbych	24,650	25.1%	21,750	23.0%	2,900
Sir y Fflint	34,450	22.1%	30,250	19.7%	4,200
Wrecsam	28,750	20.8%	25,300	18.6%	3,450
Gogledd Cymru	167,550	24.0%	150,950	21.9%	16,600

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Mae'r ganran o gyfanswm poblogaeth yr ardal.

Ffynhonnell: amcangyfrifon poblogaeth ganol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Amcangyfrifir bod tua 12,150 o bobl yng Ngogledd Cymru yn byw gyda dementia

Mae defnyddio amcangyfrifon y consensws o fynychder dementia (Prince, 2014 – gweler Ffigur 1) gyda'r data diweddaraf am y boblogaeth yn rhoi amcangyfrif ceidwadol bod tua 12,150 o bobl yng Ngogledd Cymru yn byw gyda dementia, yn cynnwys tua 300 o bobl â dementia cynnar. Ar draws Cymru ar y cyfan, amcangyfrifir bod tua 49,650 o bobl yn byw gyda dementia, yn cynnwys 1,300 â dementia cynnar.

Amcangyfrifir bod nifer y bobl sy'n byw gyda dementia yng Ngogledd Cymru wedi cynyddu o oddeutu 1,450 rhwng 2014 a 2024. Mae cyfradd y cynnydd wedi amrywio ar draws y rhanbarth, wedi'i ddylanwadu gan y newid yn nifer y bobl 65 oed a throsodd ym mhob ardal.

Ffigur 4: amcangyfrifon o nifer y bobl â dementia yng Ngogledd Cymru, 2014 a 2024

Ardal	2024 nifer	2014 nifer	Newid 2014-24 nifer	Newid 2014-24 canran
Ynys Môn	1,350	1,200	200	16.6%
Gwynedd	2,100	1,950	100	5.8%
Conwy	2,400	2,300	150	5.6%
Sir Ddinbych	1,800	1,500	300	18.6%
Sir y Fflint	2,450	2,000	450	21.9%
Wrecsam	2,050	1,750	300	18.2%
Gogledd Cymru	12,150	10,650	1,450	13.8%

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol) ac amcangyfrifon consensws o nifer yr achosion o ddementia (Prince, 2014).

Ffynhonnell: Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru

Mae merched yn fwy tebygol na dynion o gael eu heffeithio gan ddementia

O'r 12,150 o bobl a amcangyfrifir sy'n byw gyda dementia yng Ngogledd Cymru, amcangyfrifir bod tua 7,500 ohonynt yn ferched a 4,600 yn ddynion. Y prif reswm pam fod yno fwy o ferched nag o ddynion yw gan fod merched yn byw yn hirach, ac mae dementia yn glefyd sy'n gysylltiedig â henaint. Fodd bynnag, mae dementia'n gyflwr sy'n effeithio'n anghymesur ar ferched am nifer o resymau ychwanegol. Mae

cyfraddau mynychder fel arfer ychydig yn uwch i ferched. Credir yn gyffredinol bod y gwelliannau (gostyngiad) mewn mynychder a welwyd yn y degawdau diwethaf yn effeithio ar ddynion yn fwy na merched gan eu bod wedi'u llywio gan welliannau iechyd sydd â thuedd tuag at ddynion (gostyngiad mewn ysmygu a gwelliannau mewn trin cyflyrau'r galon er enghraifft). Os ydynt yn datblygu dementia, mae merched yn llai tebygol o fod â'r adnoddau i gefnogi eu hanghenion gofal, oherwydd y tebygolrwydd eu bod wedi ennill llai na'r dynion yn ystod eu bywydau gwaith. Mae merched hŷn yn fwy tebygol o fyw ar eu pen eu hunain na dynion hŷn, ac yn llai tebygol o gael partner i helpu i ddarparu gofal. Mae merched hefyd yn fwy tebygol o fod yn ddarparwyr gofal – am dâl neu'n ddi-dâl – i bobl gyda dementia.

Ffigur 5: amcangyfrifon o nifer y bobl â dementia yng Ngogledd Cymru yn ôl oedran a rhyw, 2024

Ardal	Cyfanswm	Cynnar (30-64 oed)	Oedran 65-84	Oedran 85+	Gwrywod	Benywod
Ynys Môn	1,350	30	800	550	500	850
Gwynedd	2,100	50	1,150	900	800	1,300
Conwy	2,400	50	1,350	1,050	900	1,500
Sir Ddinbych	1,800	40	1,000	700	700	1,100
Sir y Fflint	2,450	70	1,400	950	950	1,500
Wrecsam	2,050	60	1,200	850	800	1,300
Gogledd Cymru	12,150	300	6,900	4,950	4,600	7,500

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol) ac amcangyfrifon consensws o nifer yr achosion o ddementia (Prince, 2014).

Ffynhonnell: Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru

Mae gan y rhan fwyaf o bobl sy'n byw gyda dementia ddementia difrifol – amcangyfrif o 6,950 o bobl yng Ngogledd Cymru

Mae'r amcangyfrifon gorau cyfredol o'r rhaniad rhwng lefelau difrifoldeb dementia yn rhoi cymhareb o 1:2:4 ar gyfer dementia ysgafn, cymedrol a difrifol (Wittenberg, et al., Projections of older people with dementia and costs of dementia care in the United Kingdom, 2019-2040). Ar gyfer Gogledd Cymru, byddai hynny'n rhoi amcangyfrif ar gyfer 2024 bod 1,750 o bobl gyda dementia ysgafn, 3,450 gyda dementia cymedrol a 6,950 gyda dementia difrifol.

Ffigur 6: amcangyfrifon o nifer y bobl â dementia yng Ngogledd Cymru yn ôl lefel difrifoldeb, 2024

Ardal	Cyfanswm	Ysgafn	Cymedrol	Difrifol
Ynys Môn	1,350	200	400	800
Gwynedd	2,100	300	600	1,200
Conwy	2,400	350	700	1,350
Sir Ddinbych	1,800	250	500	1,000
Sir y Fflint	2,450	350	700	1,400
Wrecsam	2,050	300	600	1,200
Gogledd Cymru	12,150	1,750	3,450	6,950

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol); amcangyfrifon consensws o nifer yr achosion o ddementia (Prince, 2014); projections of older people with dementia and costs of dementia care in the United Kingdom (Wittenberg, et al, 2019).

Ffynhonnell: Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru

Nid yw pawb sydd â dementia yn cael diagnosis

Nid yw pawb sydd â dementia yn cael diagnosis. Mae'r data diweddaraf gan gofrestrau clefydau y gofrestrau clefydau Iechyd a Gofal Digidol Cymru (ar gyfer mis Ebrill 2024) yn nodi bod na 5,800 o gleifion sydd wedi cofrestru gyda Meddyg Teulu yng Ngogledd Cymru wedi cael diagnosis o ddementia. Mae hyn yn awgrymu mai dim ond 48% o bobl sy'n byw gyda dementia sydd wedi cael diagnosis ac efallai bod 6,350 o bobl heb gael diagnosis

Ffigur 7: amcangyfrifon o bobl sydd wedi cael diagnosis a heb ddiagnosis o ddementia yng Ngogledd Cymru, 2024

Ardal	Cyfanswm amcangyfrif	Diagnosis nifer	Diagnosis canran	Heb diagnosis nifer	Heb diagnosis canran
Ynys Môn	1,350	550	38.3%	850	61.7%
Gwynedd	2,100	800	39.0%	1,250	61.0%
Conwy	2,400	1,100	45.0%	1,300	55.0%
Sir Ddinbych	1,800	1,050	58.0%	750	42.0%
Sir y Fflint	2,450	1,050	43.8%	1,350	56.2%
Wrecsam	2,050	1,300	62.1%	800	37.9%
Gogledd Cymru	12,150	5,800	47.8%	6,350	52.2%

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Cyfrifwyd cyfanswm yr amcangyfrifon gan ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth (ONS) ac amcangyfrifon consensws o nifer yr achosion o ddementia (Prince, 2014).

Ffynonellau: Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru; cofrestrau clefydau Ebrill 2024, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC)/Llywodraeth Cymru

Mae rhai problemau gyda chasglu data a chofrestru ar gyfer amcangyfrifo'r nifer sydd wedi cael diagnosis o ddementia ar draws Cymru – amcangyfrifir bod y cyfraddau diagnosis yn tua 49% ar gyfer y wlad ar y cyfan. Mae'r amcangyfrifon ar gyfer Lloegr yn llawer uwch ar 67% (Data Dementia Gofal Sylfaenol, GIG Lloegr, Hydref 2025). Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gyda Meddygon Teulu i wella cofrestru, ac mae'r niferoedd wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond mae'n debygol bod y ffigurau hyn yn dangyfrifiad o nifer y bobl gyda diagnosis yng Ngogledd Cymru.

Mae nifer y bobl â dementia yn debygol o gynyddu yn y dyfodol

Gan fod nifer y bobl yn y grwpiau oedran hŷn yn debygol o barhau i gynyddu yn ystod y ddau ddegawd nesaf, yna mae nifer y bobl â dementia o fewn y boblogaeth hefyd yn debygol o gynyddu.

Ffigur 8: nifer y bobl a amcanestynnir y byddant yn byw gyda dementia yng Ngogledd Cymru, 2034 a 2044

Ardal	Amcangyfrif 2024	Amcanestyniad 2034	Amcanestyniad 2044
Ynys Môn	1,350	1,750	2,100
Gwynedd	2,100	2,600	3,050
Conwy	2,400	3,050	3,650
Sir Ddinbych	1,800	2,250	2,700
Sir y Fflint	2,450	3,100	3,650
Wrecsam	2,050	2,700	3,250
Gogledd Cymru	12,150	15,450	18,400

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Ffynhonnell: Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru; amcangyfrifon poblogaeth ganol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol; amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol, sail-2022 (prif amcanestyniad), Llywodraeth Cymru

Disgwylir i gyfran a nifer y bobl hŷn yn y boblogaeth gynyddu tan ganol y 2040au, pan fydd y garfan fawr a aned yn ystod y twf babanod yn dechrau gadael y boblogaeth.

Mae defnyddio amcangyfrifon y consensws o fynychder dementia (Prince, 2014 – gweler Ffigur 1) i'r amcanestyniad poblogaeth diweddaraf a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru rhagweld y gallai fod 15,450 o bobl yn byw gyda dementia yng Ngogledd Cymru erbyn 2034 (newid deng mlynedd). Mae hyn yn gynnydd o tua 3,300 neu 27% o ffigurau 2024. Erbyn 2044 (newid 20 mlynedd) disgwylir i'r nifer fod wedi cynyddu i tua 18,400 – newid o tua 6,250 neu 52% o'i gymharu â 2024.

Ffigur 9: newid yn yr amcangyfrifon a'r amcanestyniadau o nifer y bobl â dementia yng Ngogledd Cymru, cymariaethau 10 ac 20 mlynedd

Ardal	Newid 10 mlynedd (i 2034) nifer	Newid 10 mlynedd (i 2034) canran	Newid 20 mlynedd (i 2044) nifer	Newid 20 mlynedd (i 2044) canran
Ynys Môn	400	28.4%	700	52.6%
Gwynedd	500	24.0%	1,000	46.8%
Conwy	650	26.8%	1,250	52.4%
Sir Ddinbych	450	26.1%	900	50.7%
Sir y Fflint	700	28.5%	1,250	51.0%
Wrecsam	650	30.6%	1,150	56.5%
Gogledd Cymru	3,300	27.4%	6,250	51.6%

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Ffynhonnell: Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru; amcangyfrifon poblogaeth ganol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol; amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol, sail-2022 (prif amcanestyniad), Llywodraeth Cymru

Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar y prif amcanestyniad poblogaeth gan Lywodraeth Cymru, a ryddhawyd ym mis Tachwedd 2025. Mae amcanestyniadau amrywiol ar gael sy'n edrych ar wahanol gyfraddau twf ac yn gwneud gwahanol dybiaethau am dueddiadau poblogaeth yn y dyfodol.

Atodiad: ystadegau dementia ar gyfer ardaloedd iechyd lleol a chlystyrau gofal sylfaenol

Ffigur 10: newid yn nifer y bobl 65 oed a throsodd mewn ardaloedd iechyd lleol a chlystyrau gofal sylfaenol yng Ngogledd Cymru, 2014 a 2024

Ardal	2024 nifer	2024 canran	2014 nifer	2014 canran	Newid 2014-24
Gogledd Cymru	167,550	24.0%	150,950	21.9%	16,600
Ynys Môn a Gwynedd	47,200	24.8%	43,700	23.0%	3,500
Conwy a Sir Ddinbych	57,200	26.8%	51,750	24.6%	5,450
Sir y Fflint a Wrecsam	63,200	21.5%	55,550	19.2%	7,650
Ynys Môn	18,150	27.5%	16,150	24.3%	2,000
Arfon	11,900	18.6%	10,850	17.4%	1,100
Canol a De Sir Ddinbych	11,300	25.8%	9,550	22.2%	1,750
Dwyrain Conwy	15,350	28.3%	14,350	26.1%	950
Gorllewin Conwy	16,700	28.5%	15,200	25.9%	1,500
Gogledd Ddwyrain Sir y Fflint	11,100	19.7%	9,650	17.4%	1,450
Dwyfor a Gogledd Meirionnydd	11,300	17.1%	11,150	26.8%	150
Gogledd Orllewin Sir y Fflint	7,750	12.1%	6,650	18.8%	1,100
De Meirionnydd	5,850	13.3%	5,550	28.8%	300
De Sir y Fflint	13,800	25.4%	12,350	22.1%	1,450
Gogledd Sir Ddinbych	14,400	24.5%	13,100	23.4%	1,300
De Wrecsam	11,400	20.3%	10,000	20.0%	1,400
Gorllewin a Gogledd Wrecsam	7,600	18.7%	6,550	19.8%	1,050
Canol Wrecsam	10,950	30.1%	9,850	17.3%	1,100

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Mae'r ganran o gyfanswm poblogaeth yr ardal.

Ffynhonnell: amcangyfrifon poblogaeth ganol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Ffigur 11: amcangyfrifon o nifer y bobl â dementia mewn ardaloedd iechyd lleol a chlystyrau gofal sylfaenol yng Ngogledd Cymru, 2024 – oedran, rhyw a lefel difrifoldeb

Ardal	Cyfanswm	Cynnar (30-64 oed)	Oedran 65-84	Oedran 85+	Gwrywod	Benywod	Ysgafn	Cymedrol	Difrifol
Gogledd Cymru	12,150	300	6,900	4,950	4,600	7,500	1,750	3,450	6,950
Ynys Môn a Gwynedd	3,450	100	1,950	1,450	1,300	2,150	500	1,000	2,000
Conwy a Sir Ddinbych	4,200	100	2,350	1,750	1,600	2,600	600	1,200	2,400
Sir y Fflint a Wrecsam	4,500	100	2,600	1,750	1,700	2,750	650	1,300	2,550
Ynys Môn	1,300	30	750	550	500	800	200	350	750
Arfon	850	20	500	350	300	550	100	250	500
Canol a De Sir Ddinbych	800	20	450	300	300	500	100	250	450
Dwyrain Conwy	1,150	20	650	500	400	700	150	300	650
Gorllewin Conwy	1,250	20	700	550	450	800	200	350	700
Gogledd Ddwyrain Sir y Fflint	800	20	450	300	300	450	100	200	450
Dwyfor a Gogledd Meirionnydd	850	20	450	400	350	550	100	250	500
Gogledd Orllewin Sir y Fflint	500	20	300	200	200	300	50	150	300
De Meirionnydd	450	10	250	200	150	250	50	100	250
De Sir y Fflint	1,000	20	600	400	400	600	150	300	600
Gogledd Sir Ddinbych	1,050	20	600	400	400	650	150	300	600
De Wrecsam	800	20	450	350	300	500	100	250	450
Gorllewin a Gogledd Wrecsam	550	10	300	200	200	300	100	150	300
Canol Wrecsam	800	30	450	350	300	500	100	250	450

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol); amcangyfrifon consensws o nifer yr achosion o ddementia (Prince, 2014); projections of older people with dementia and costs of dementia care in the United Kingdom (Wittenberg, et al, 2019).

Ffynhonnell: Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru

Ffigur 12: amcangyfrifon o bobl sydd wedi cael diagnosis a heb ddiagnosis o ddementia mewn ardaloedd iechyd lleol a chlystyrau gofal sylfaenol yng Ngogledd Cymru, 2024

Ardal	Cyfanswm amcangyfrif	Diagnosis nifer	Diagnosis canran	Heb diagnosis nifer	Heb diagnosis canran
Gogledd Cymru	12,150	5,800	47.8%	6,350	52.2%
Ynys Môn a Gwynedd	3,450	1,350	38.7%	2,100	61.3%
Conwy a Sir Ddinbych	4,200	2,100	50.5%	2,050	49.5%
Sir y Fflint a Wrecsam	4,500	2,350	52.2%	2,150	47.8%
Ynys Môn	1,300	550	40.2%	800	59.8%
Arfon	850	400	46.4%	450	53.6%
Canol a De Sir Ddinbych	800	300	40.3%	450	59.7%
Dwyrain Conwy	1,150	550	48.8%	600	51.2%
Gorllewin Conwy	1,250	550	42.5%	700	57.5%
Gogledd Ddwyrain Sir y Fflint	800	400	50.9%	400	49.1%
Dwyfor a Gogledd Meirionnydd	850	250	31.2%	600	68.8%
Gogledd Orllewin Sir y Fflint	500	300	61.2%	200	38.8%
De Meirionnydd	450	150	34.5%	300	65.5%
De Sir y Fflint	1,000	350	34.5%	650	65.5%
Gogledd Sir Ddinbych	1,050	700	68.7%	350	31.3%
De Wrecsam	800	400	51.3%	400	48.7%
Gorllewin a Gogledd Wrecsam	550	250	46.3%	300	53.7%
Canol Wrecsam	800	600	75.6%	200	24.4%

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Cyfrifwyd cyfanswm yr amcangyfrifon gan ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth (ONS) ac amcangyfrifon consensws o nifer yr achosion o ddementia (Prince, 2014).

Mae'n debygol bod y ffigurau hyn yn dangyfriflad o nifer y bobl sydd â diagnosis o ddementia yng Ngogledd Cymru. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gyda Meddygon Teulu i wella cofrestriad.

Ffynonellau: Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru; cofrestrau clefydau Ebrill 2024, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC)/Llywodraeth Cymru.